CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

MEMORANDWM CYWIRIADAU YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 22.12A

Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000

-

Y Cefndir

Gosodwyd y Rheoliadau Drafft hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mai 2000, fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes ar 24 Mai 2000 a chan y Pwyllgor Deddfau ar 6 Mehefin 2000.

Nodwyd gwallau teipograffyddol a gwallau drafftio gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau cyn cyfarfod y Pwyllgor ac yn sgil hynny awgrymwyd diwygiadau.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin ar y diwygiadau a nodir isod a chytunodd y Pwyllgor iddynt gael eu hystyried gan y Cynulliad:-

Y Diwygiadau

Trefn y Rheoliadau

Diwygiad 1

Ar ôl "Rhan I" o dan "Yr Atodlen" dilëwch y colon diangen.

Rheoliad 2

Diwygiad 2

Yn y diffiniad o "disabled person" mewnosodwch "who" o flaen "corresponds".

Y rheswm dros y diwygiad:

I wneud y bwriad yn gliriach a gwella cystrawen y frawddeg.

Diwygiad 3

Yn y diffiniad o "holder" dilëwch y coma diangen ar ôl "deiliad".

Rheoliad 3(2)(a)

Diwygiad 4

Mewnosoder "a local authority" ar ôl "any application made to".

Y rheswm dros y diwygiad:

Gwneud yr ystyr yn gliriach yn dilyn cystrawen symlach y testun Cymraeg.

Rheoliad 9

Diwygiad 5

Dilëwch yr hanner colon a ddyblygwyd ar ddiwedd 9(1)(b) o'r testun Cymraeg a mewnosod hanner colon ar ddiwedd 9(1)(b) o'r testun Saesneg.

Diwygiad 6

Dilëwch yr hanner colon a ddyblygwyd ar ddiwedd 9 (1) (c) o'r testun Saesneg.

Diwygiad 7

Rhoddwch yr atalnod llawn yn lle'r hanner colon ar ddiwedd 9 (1) (dd) o'r testun Cymraeg.

Diwygiad 8

Mewnosodwch atalnod llawn ar ddiwedd 9 (2) (b) o'r testun Cymraeg.

Y rheswm dros ddiwygiadau 5 i 8:

Gwella cysondeb yr atalnodi.

SUE ESSEX 14 Mehefin 2000

Ysgrifennydd y Cynulliad dros Gynllunio,

Trafnidiaeth a'r Amgylchedd

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

MEMORANDUM OF CORRECTIONS PURSUANT TO STANDING ORDER 22.12A

Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000

-

Background

These Draft Regulations were laid before the National Assembly for Wales on 26th May 2000, considered by the Business Committee on 24th May 2000 and by the Legislation Committee on 6th June 2000.

Typographical and drafting errors were identified by the Legal Advisers to the Legislation Committee prior to the Committee's meeting and amendments were suggested in consequence.

The amendments set out below were reported to the Legislation Committee at its meeting on the 6th June and agreed by it for consideration by the Assembly:-

Amendments

Arrangement of Regulations

Amendment 1

After "Rhan I" under "Yr Atodlen" remove superfluous colon.

Regulation 2

Amendment 2

In the definition of "disabled person" insert "who" before "corresponds".

Reason for the amendment:

To make the intention clearer and improve sentence construction.

Amendment 3

In the definition of "holder" remove the superfluous comma after "deiliad".

Regulation 3(2)(a)

Amendment 4

Insert "a local authority" after "any application made to".

Reason for the amendment:

To make the meaning clearer following the more straightforward construction of the Welsh text.

Regulation 9

Amendment 5

Remove duplicated semi-colon at the end of 9(1)(b) of the Welsh text and insert semi colon at the end of 9(1)(b) of the English text.

Amendment 6

Remove duplicated semi-colon at the end of 9(1)(c) of the English text.

Amendment 7

Replace semi colon with full stop at the end of 9(1)(dd) of the Welsh text.

Amendment 8

Insert full stop at the end of 9(2)(b) of the Welsh text.

Reason for amendments 5 to 8:

To improve consistency of punctuation.

SUE ESSEX 14 June 2000

Assembly Secretary for Planning,

Transport and the Environment